


# ABSRESS

improving the resistance  
**Abiotic and**

of legume crops to combined  
**Biotic STRESS**



Gwella ymwrthedd *cnydau codlysiâu i straen*  
anfotig a *biotig cyfunol*



Prosiect pum mlynedd yw Abstress a fydd yn chwyldroi'r ffordd y cynhyrchir mathau newydd o blanhigion. Yr Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd (Fera) sy'n arwain y prosiect, gyda 12 o bartneriaid cenedlaethol a rhyngwladol. Y nod yw defnyddio dulliau bridio planhigion a genynnau o'r radd flaenaf i gynhyrchu mathau o gnydau sy'n gwrthsefyll sychder a/neu afiechydon yn well. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar godlysiâu, ond bydd yr egwyddorion a ddatblygir hefyd i'w gweld mewn cnydau eraill megis tomatos.

Mae codlysiâu'n hollbwysig i ddyfodol amaeth yn Ewrop, ac mae codlysiâu a dyfir yn yr UE yn allweddol gan eu bod yn ffynhonnell gynaliadwy o brotein yn neiet pobl ac anifeiliaid. Yn bwysig iawn, gellir defnyddio cnydau Ewropeaidd megis pys (Pisum sativum) yn lle ffa soia wedi'u mewnfory, sydd ar hyn o bryd yn cyfrif am dros 75% o brotein porthiant yn yr UE.

Does dim angen gwrtaith nitrogen ar godlysiâu, ac o'u defnyddio, ni fydd angen cymaint o wrtaith nitrogen ar gnydau eraill chwaith. Mae'r math hwn o wrtaith yn creu llawer o nwyon tŷ gwydr ac yn peri bod ffermydd yn defnyddio llawer iawn o ynni.

Ar hyn o bryd, mae sychder a haint ffwngaid (Fusarium oxysporum) yn amharu'n ddifrifol ar gnwd codlysiâu. Pathogen sy'n cael ei gario mewn pridd yw Fusarium, ac mae'n achosi afiechyd sy'n gwywo'r planhigion a heintiwyd. Mae'r difrod yn waeth yn ystod cyfnodau o sychder. Y darogan yw y bydd yr afiechyd ffwngaid hwn, sy'n ddiinstriol i'r economi, yn lledaenu fwyfwy wrth i'r hinsawdd newid.



## Amcanion Abstress

- Datblygu cnydau sy'n gallu gwrthsefyll straen sychder (anfotig) a Fusarium (biotig) ac eto roi cnwd da. Mae hynny'n bwysig er mwyn sicrhau cyflenwadau bwyd, yn ogystal â lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd
- Cyflymu cryn dipyn ar y gwaith o fridio mathau newydd o blanhigion sy'n gallu gwrthsefyll yn well yr heriau a gysylltir fel rheol â newid yn yr hinsawdd, megis tywydd eithafol a'r newidiadau a ddaw hefyd mewn plâu ac afiechydon
- Sicrhau bod technegau bridio modern ar gael yn rhwyddach yn yr Undeb Ewropeaidd ac ar y cyd â phartneriaid ledled y byd.

Ebost: [abstress@fera.gsi.gov.uk](mailto:abstress@fera.gsi.gov.uk)

Gwefan: [www.abstress.eu](http://www.abstress.eu)

